Hyfforddiant cydraddoldeb cyffredinol ar gael *(nid yw Chwaraeon Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ansawdd darparwyr yr hyfforddiant)*

Lucy Faulkner a Louise Tideswell yn cyflwyno Gweithdy Cydraddoldeb i'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli
Dyma weithdy tair awr ar gyfer y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli mewn Cyrff Rheoli Cenedlaethol. Ei nod yw ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y cyfranogwyr o gydraddoldeb a'i berthnasedd i Gorff Rheoli Cenedlaethol. Mae wedi'i lunio'n benodol ar gyfer Aelodau Byrddau'r Cyrff hyn, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio mewn uwch swyddi rheoli yn y Cyrff. Mae'r gweithdy'n rhoi sylw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a bydd yn cefnogi'r Corff Rheoli i sicrhau ei fod yn bodloni ei ofynion cyfreithiol fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaethau mewn perthynas â'r holl nodweddion a warchodir. Rhaid cael 8-12 o bobl yn bresennol yn y gweithdy ac mae'n costio £400 y gweithdy.
http://www.lucyfaulkner.com/

Lucy Faulkner a Louise Tideswell yn cyflwyno Gweithdy Cydraddoldeb i Staff Datblygu
Dyma weithdy tair awr ar gyfer staff datblygu mewn Cyrff Rheoli Cenedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am gynyddu cyfranogiad. Ei nod yw ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y cyfranogwyr o gydraddoldeb a'i berthnasedd i Gorff Rheoli Cenedlaethol. Mae'r gweithdy'n rhoi sylw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r hyn y gall y Corff Rheoli ei wneud i sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl ar bob lefel mewn perthynas â'r nodweddion a warchodir. Gellir ei gyflwyno i staff eraill hefyd e.e. y rhai sy'n gweithio ym maes perfformiad neu addysgu hyfforddwyr. Gwneir y cynnwys yn berthnasol drwy ddefnyddio astudiaethau achos penodol sy'n berthnasol i'w maes gwaith. Rhaid cael 12-20 o bobl yn bresennol yn y gweithdy ac mae'n costio £400 y gweithdy.
http://www.lucyfaulkner.com/

Hyfforddiant ar-lein am ddim neu am ffi i staff
Am ddim - ACAS www.acas.org.uk amrywiaeth dda iawn o gyrsiau e-ddysgu am ddim, gan gynnwys **Modiwl Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.** Mae'r modiwl yn dangos sut gall pobl barchu ei gilydd a'u gwahaniaethau yn y gwaith, a pham mae'n bwysig gwneud hynny. Mae'n rhoi sylw i'r hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud a bydd pobl yn dysgu beth yw'r nodweddion a warchodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y cwrs yn dangos i bobl sut mae mabwysiadu dull priodol o weithio gyda chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle, ac yn eu hannog i feddwl am eu polisïau a'u gweithdrefnau a holi a ydynt yn gweithio'n effeithiol. Bydd angen tua 30 munud i'w gwblhau. Mae prawf ar y diwedd i brofi'r hyn sydd wedi'i ddysgu.

Am ffi - Skill Boosters www.skillboosters.com amrywiaeth o adnoddau sydd wedi'u datblygu mewn partneriaeth ag arbenigwyr a sefydliadau cyflogwyr blaenllaw y DU. Mae eu modiwl **Ymestyn Hanfodion Cydraddoldeb** yn ymwneud â gwneud synnwyr o gydraddoldeb yn ymarferol. Mae'r adnodd dysgu rhyngweithiol a diddorol hwn yn ceisio chwalu pob myth a symleiddio materion cydraddoldeb. Mae'n rhoi cyflwyniad ymarferol i staff a rheolwyr ar yr egwyddorion allweddol i helpu gyda hybu cydraddoldeb yn eu gweithle. Bydd yn cymryd tua 55 munud i gwblhau'r modiwl cyfan. Mae prawf ar y diwedd i brofi'r hyn sydd wedi'i ddysgu. Y gost yw £25, gydag amrywiadau os bydd niferoedd mawr yn cymryd rhan.

Running Sports – Clwb i Bawb ar gyfer swyddogion clybiau
Fersiwn ar-lein
Fersiwn ar-lein o'r gweithdy. Mae Clwb i Bawb ar gael drwy Skills Active. Mae'n tynnu sylw at y manteision o gynnwys sylfaen aelodaeth ehangach, sy'n golygu mwy o hyfforddwyr, chwaraewyr a swyddogion, refeniw cynyddol, gwella cymhwysedd am gyllid y loteri ac ennill safonau ansawdd, fel Clubmark. Bydd hefyd yn sicrhau cynnwys a chefnogi'r gymuned leol. Addas ar gyfer clybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol sydd eisiau agor eu clwb i bob rhan o'r gymuned. Mae'r manteision i'r sefydliad yn seiliedig ar ffordd gyflym, rwydd a chyfleus i sefydliadau wneud y canlynol:

- ehangu aelodaeth
- denu mwy o hyfforddwyr, chwaraewyr a swyddogion
- gwella cymhwysedd am gyllid
- gweithio tuag at ennill nodau ansawdd, fel Clubmark.

Bydd y cwrs ar-lein yn cymryd 3.5 awr i'w gwblhau ac mae'n costio £20.
Fersiwn wyneb yn wyneb
Cysylltwch â Chwaraeon Cymru ynghylch gweithdy wyneb yn wyneb Clwb i Bawb.